CYNGOR ARBENNIG

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS NOS IAU 18 MAWRTH AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd C. Andrews – Maer
Y Cynghorydd J. Gale – Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

M. Adams, E.M. Aldworth, A. Angel, P. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, C. Cuss, W. David, M. Davies, T. Davies, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Forehead, J. Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, R. Gough, L. Harding, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, B. Jones, S. Kent, G. Kirby, A. Leonard, P. Leonard, C. Mann, P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, B. Owen, T. Parry, L. Phipps, D. Poole, D. Preece, D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, R. Saralis, M.E. Sargent, J. Simmonds, G. Simmonds, S. Skivens, E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L. Whittle, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski.

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Cyllid a Swyddog Adran 151), L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol: -

S. Issacs (Eversheds Sutherland)

TREFNIADAU FFRYDIO I'R WE A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio, ac eithrio ar gyfer trafodaethau sy'n cynnwys eitemau cyfrinachol neu eithriedig, ac na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i'w Wylio. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. Bevan, D. Hardacre, D. Harse, G. Oliver, M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Cymunedau) ac R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

Dywedodd y Cynghorwyr P. Bevan ac S. Kent y bydden nhw'n gadael y cyfarfod yn gynnar oherwydd ymrwymiadau blaenorol, ac felly yn ddibynnol ar hyd y cyfarfod, ei bod hi'n bosib na fydden nhw'n bresennol i bleidleisio ar Eitem 4 yr Agenda.

2. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd D. Poole fuddiant personol a rhagfarnus mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr Agenda – Hawliad y Cyn-Brif Weithredwr i'r Tribiwnlys Cyflogaeth – gan ei fod wedi rhoi tystiolaeth i'r Unigolyn Annibynnol Penodedig fel rhan o'r broses ymchwilio fewnol.

Datganodd y Cynghorydd W. David fuddiant personol a rhagfarnus mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr Agenda – Hawliad y Cyn-Brif Weithredwr i'r Tribiwnlys Cyflogaeth – ar y sail bod y cyn Brif Weithredwr wedi gwneud cwyn yn ei erbyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Rhagfyr 2019, a oedd wedi peri gofid mawr iddo. Gwrthodwyd y gŵyn, ac nid ymchwiliwyd iddi, ond roedd y Cynghorydd David yn teimlo bod ganddo ragfarn yn erbyn Mr O'Sullivan ac y byddai'n gadael y cyfarfod ar y pwynt hwn.

Rhoddwyd cyngor hefyd i'r Cynghorwyr L. Binding, J.E. Fussell ac M. James, ond ni wnaed unrhyw ddatganiadau buddiant eraill.

3. PRAWF BUDD Y CYHOEDD

Ystyriodd yr Aelodau y dystysgrif brawf budd y cyhoedd gan y Swyddog Priodol, a daethpwyd i'r casgliad, ar y cyfan, bod budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gorbwyso budd y cyhoedd o ran datgelu gwybodaeth. Drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad llafar, ac wrth nodi bod 53 o blaid, 9 yn erbyn, a 4 yn ymatal, cytunwyd i hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y byddai'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod, oherwydd y tebygolrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel y nodwyd ym mharagraff 12, 14, 15 ac 16 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Ar ôl i Brawf Budd y Cyhoedd gael ei dderbyn, ataliwyd y recordiad o'r cyfarfod a symudodd y Cyngor i sesiwn eithriedig.

4. MATER EITHRIEDIG – HAWLIAD Y CYN-BRIF WEITHREDWR I'R TRIBIWNLYS CYFLOGAETH

Gadawodd y Cynghorydd D. Poole y cyfarfod ar ôl datgan budd personol a rhagfarnus.

Roedd y Cynghorydd W. David eisoes wedi gadael y cyfarfod ar ôl datgan budd personol a rhagfarnus ar gyfer Eitem Rhif 2 yr Agenda.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r cyngor yn llawn fel y'u cyflwynwyd, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo Opsiwn 3.2 Adroddiad y Swyddog.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15.4 (1), gwnaed cais am ail bleidlais.

Nodwyd nad oedd y Cynghorydd P. Bevan na'r Cynghorydd S. Kent yn bresennol pan aeth y mater i bleidlais oherwydd ymrwymiadau blaenorol.

O BLAID Y CYNNIG

Cynghorwyr: M. Adams, C. Andrews, A. Collis, S. Cook, C. Cuss, D.T. Davies, K. Dawson, M. Evans, C. Forehead, E. Forehead, J. Gale, N. George, C. Gordon, L. Harding, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, V. James, L. Jeremiah, B. Jones, G. Kirby, P. Leonard, P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, L. Phipps, D. Preece, D. Price, J. Ridgewell, R. Saralis, J. Simmonds, E. Stenner, A. Whitcombe, R. Whiting, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski (37)

YN ERBYN Y CYNNIG

Cynghorwyr: E.M. Aldworth, A. Angel, C. Bezzina, L. Binding, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, A. Farina-Childs, A. Gair, M. James, G. Johnston, A. Leonard, B. Owen, T. Parry, J. Pritchard, J. Roberts, M.E. Sargent, J. Scriven, G. Simmonds, C. Thomas, L. Whittle (21)

YMATAL

Cynghorwyr: D. Cushing, M. Davies, J.E. Fussell, R. Gough, C.P. Mann, S. Skivens, J. Taylor (7)

Cyhoeddwyd bod y CYNNIG wedi'i gario.

> PENDERFYNWYD y bydd Hawliad y Cyn-Brif Weithredwr i'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn cael ei setlo, ac y bydd cyfanswm y gost o £120,700 yn cael ei ariannu o danwariant cyllideb refeniw arfaethedig 2020/21 ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 13 Ebrill 2021, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

_____

MAER